

# **Adolygiad ac Adroddiad ynghylch Gwerth am Arian yn ystod 2019/20 ar gyfer Gwasanaeth Cyflawni Addysg De Ddwyrain Cymru**

**Awdur yr Adroddiad: Rod Alcott (Ymgynghorydd Allanol)**

**Dyddiad yr adroddiad: 15 Mehefin 2020**

**Cynnwys:**

**Tudalen:**

<b>Crynodeb Gweithredol.....</b>	<b>3</b>
<b>Argymhellion.....</b>	<b>4</b>
<b>Bod yn ddarbodus – Gwario llai.....</b>	<b>4</b>
<b>Effeithiolrwydd – Gwario’n ddoeth.....</b>	<b>5</b>
<b>Tegwch – Gwario’n deg.....</b>	<b>11</b>
<b>Effeithlonrwydd – Gwario’n dda.....</b>	<b>12</b>
<b>Cynaliadwyedd – Gwario at y tymor hir.....</b>	<b>20</b>
<b>Casgliad.....</b>	<b>22</b>

## Crynodeb Gweithredol

Mae Gwerth am Arian, neu gost effeithiolrwydd, yn fesur sy'n dangos pa mor dda mae adnoddau yn cael eu defnyddio i gyflawni deilliannau arfaethedig. Mae gwerth am arian da yn golygu gwneud y defnydd gorau posibl o adnoddau i gyflawni deilliannau. Fel arfer, mesurir Gwerth am Arian trwy ystyried:

- **Bod yn ddarbodus:** Lleihau costau'r adnoddau a ddefnyddir ac ystyried ansawdd (mewnbynau) ar yr un pryd – gwario llai;
- **Effeithlonrwydd:** y berthynas rhwng mewnbynau a'r adnoddau a ddefnyddir i'w cynhyrchu – gwario'n dda; ac
- **Effeithiolrwydd:** I ba raddau y cyflawnir amcanion (deilliannau) – gwario'n ddoeth.

Mae'r uchod yn cynrychioli'r dull traddodiadol o fesur Gwerth am Arian, ond gellir cynnwys dau ddimensiwn ychwanegol hefyd:

- **Tegwch:** i ba raddau y mae gwasanaethau ar gael ac yn cyrraedd at y bobl hynny y bwriedir iddynt eu cyrraedd - gwario'n deg.
- **Cynaliadwyedd:** mae hyn yn ystyriaeth sy'n fwyfwy safonol yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – gwario at y tymor hir.

Mewn adolygiad o Werth am Arian, mae'n bosibl hefyd ystyried cyd-destun penodol y sefydliad sy'n cael ei adolygu. O ganlyniad, mae'n bwysig ystyried nodau ac amcanion penodol y sefydliad sy'n cael ei adolygu. I ychwanegu gwerth at sefydliad, mae'n rhaid i adolygiad o Werth am Arian:

- werthuso pa mor dda mae sefydliad yn perfformio mewn perthynas â chyflawni ei nodau a'i amcanion penodedig; a
- darparu plattform i'w alluogi i wella ei berfformiad.

At ddibenion yr adolygiad hwn, gellir dehongli nod cyffredinol y GCA ar sail ei ddatganiad cenhadaeth, sef: *'Gan gydweithio â'n partneriaid allweddol, ein nod yw gweddwid deilliannau addysgol a chyfleoedd bywyd i bob dysgwr ym mhob cwr o Dde Ddwyrain Cymru'*. Gellir ystyried fod yr amcanion canlynol yn sail i'r nod cyffredinol hwn:

- sicrhau profiadau dysgu llwyddiannus a lefelau uchel o lesiant, yn enwedig i'r rhai sy'n wynebu'r heriau mwyaf;
- datblygu rhwydweithiau effeithiol o weithwyr proffesiynol, ar draws y pum Awdurdod Lleol a thu hwnt i hynny, a chydweithio i wella arweinyddiaeth, addysgu a dysgu; a
- denu a chadw tîm o bobl ragorol sy'n ymgorffori ein gwerthoedd craidd yn eu gwaith ac yn rhannu awydd angerddol i sicrhau rhagoriaeth.

Rhaid cydnabod o'r cychwyn cyntaf bod y datganiad cenhadaeth a'i amcanion sylfaenol wedi'u datblygu yn seiliedig ar bron i ddeng mlynedd o brofiad o ddarparu gwasanaeth gwella ysgolion ledled De Ddwyrain Cymru. Maent yn cynrychioli'r hyn sy'n elfennau allweddol gwasanaeth effeithiol yn nhyb y sefydliad, ac o'r herwydd, mae'n rhesymol tybio bod eu defnyddio, fel fframwaith methodolegol ar gyfer casglu tystiolaeth, wedi galluogi dod i gasgliadau dilys ynghylch i ba raddau graddau y mae Gwerth am Arian yn cael ei gyflawni.

Mae gwerth adolygiad Gwerth am Arian yn gorwedd yn rhannol yn y sicrwydd y gall ei ddarparu i ddarparwyr a derbynwyr gwasanaethau. Fodd bynnag, gellir dadlau bod gwerth ychwanegol mwy yn deillio o'r graddau y mae'n gweithredu fel catalydd ar gyfer gwella, yn seiliedig ar werthusiad o gorff o dystiolaeth sy'n dangos beth sy'n gweithio'n dda a beth sy'n ddim y gweithio cystal. Gall

hyn yn ei dro arwain at ddyfarniadau sy'n seiliedig ar wybodaeth gadarn am yr hyn sydd angen ei newid.

Os yw derbynnir y dull gweithredu a'r rhagdybiaethau sylfaenol a amlinellir uchod, yna'r ystyriaeth nesaf oedd sut i gasglu'r dystiolaeth angenrheidiol i wneud gwerthusiad dilys o Werth am Arian. Fodd bynnag, rhaid cydnabod bod y gwaith o gasglu a dadansoddi dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn wedi digwydd dan amgylchiadau cwbl eithriadol y cyfyngiadau symud a orfodwyd i frwydro yn erbyn pandemig Coronafeirws. O ganlyniad, roedd yn ymarfer a gynhaliwyd yn gyfan gwbl o bell. Er bod hyn wedi achosi rhywfaint heriau logistaidd anochel ac oedi wrth adrodd, ni wnaeth effeithio ar ansawdd y dystiolaeth a gasglwyd nac amharu ar ddilysrwydd canfyddiadau a chasgliadau dilynol.

Defnyddiodd yr adolygiad Gwerth am Arian hwn wybodaeth a data a ddarparwyd gan y GCA mewn ymateb i geisiadau, dystiolaeth gan arbenigwyr allanol sydd wedi gwneud gwaith i'r GCA yn ystod blwyddyn academaidd 2019-20 a gwybodaeth a data sydd ar gael i'r cyhoedd. Trwy ystyried y corff hwn o dystiolaeth, galluogwyd dyfarniad ynghylch Gwerth am Arian a dyma'r dyfarniad hwnnw:

**Mae'r GCA yn dal i ddarparu Gwerth am Arian o ran y gwasanaethau mae'n eu darparu ledled y rhanbarth, fel y tystir gan y deilliannau gwell ar gyfer rhai dysgwyr a chyflawniad yr amcanion eraill y mae wedi'u gosod iddo'i hun.**

Casglwyd hynny oherwydd:

- **Bod yn ddarbodus– gwario llai.** Mae'r GCA yn parhau i ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau i ysgolion ledled y rhanbarth ag adnoddau sy'n prinhau; ar yr un pryd, mae'n cynnal y lefel uchaf o ddirprwyo cyllid i ysgolion o blith unrhyw gonsortiwym yng Nghymru
- **Effeithiolrwydd – gwario'n ddoeth.** Mae perfformiad ysgolion a deilliannau disgyblion yn gwella, fodd bynnag, erys problemau sylweddol (yr ymdrinnir â hwy trwy gyfrwng rhaglen gynhwysfawr o gymorth) yn y sector uwchradd.
- **Tegwch – gwario'n deg.** Mae'r GCA wedi sicrhau fod gwella llesiant disgyblion yn flaenoriaeth, yn enwedig i'r rhai sy'n wynebu'r heriau mwyaf, ac mae ei ddull gwerthu yn galluogi cynnydd sylweddol.
- **Effeithlonrwydd – gwario'n dda.** Mae ansawdd y gweithlu yn cael ei wella trwy ddarparu rhaglenni helaeth i ddatblygu sgiliau addysgu ac arweinyddiaeth ledled y rhanbarth, â buddion cadarnhaol eglur o safbwynt ansawdd addysgu a dysgu.
- **Cynaliadwyedd – gwario at y tymor hir.** Mae rhaglen helaeth o gymorth Adnoddau Dynol ynghyd â rhaglen ddatblygu gynhwysfawr yn ei lle i sicrhau y denir ac y cedwir gweithwyr proffesiynol o'r radd flaenaf ledled y rhanbarth.

Bydd prif gorff yr adroddiad hwn yn disgrifio'r dystiolaeth sy'n sail i'r casgliadau uchod.

#### **Argymhellion:**

- Mae angen i'r GCA adeiladu ar ei ddull datblygol o ystyried Gwerth am Arian trwy wneud y canlynol:
  - mireinio ei ddulliau adrodd mewnol yn rheolaidd;
  - 
  - ehangu ymgysylltiad â'r sawl sy'n derbyn ei wasanaethau i driongli dystiolaeth a dilysu canfyddiadau a chasgliadau ymhellach.

**Bod yn ddarbodus– gwario llai. Mae'r GCA yn parhau i ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau i ysgolion ledled y rhanbarth ag adnoddau sy'n prinhau; ar yr un pryd, mae'n cynnal y lefel uchaf o ddirprwyo cyllid i ysgolion o blith unrhyw gonsortiwym yng Nghymru**

Un elfen o lunio barn gyffredinol yw ystyried y sefydliad yn gyfannol o safbwynt yr holl adnoddau – pob ac arian i bob pwrpas – sydd ar gael iddo.

Ceir sefyllfa ble mae adnoddau'n crebachu'n ddi-ddiwedd, o ran incwm a niferoedd staff. Isod, gwelir y bar raddau y mae cyllid craidd, cyllid grantiau ac incwm masnachu wedi gostwng/ Cafwyd

gostyngiad cytunedig o 9.6% yng nghyllid gan Awdurdodau Lleol (ALI) dros y 5 mlynedd diwethaf sydd, ynghyd â dileu incwm masnachu, wedi arwain at ostyngiad o ryw £ 1.26m neu 28.6% yng nghyfanswm yr arian craidd mewn termau absoliwt rhwng 2015-16 a 2019-20. Fodd bynnag, mewn termau real, pan ystyrir chwyddiant a dyfarniadau cyflog, mae'r gostyngiad wedi bod yn fwy na 30%. Dros yr un cyfnod amser mae'r gostyngiad yn swm yr arian grant a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru yn golygu fod gan y GCA £ 3.7m neu 7% yn llai o ran yr arian grantiau sydd ar gael ar gael mewn termau absoliwt. Wrth ystyried y gostyngiadau yng nghyllid yr ALI, dileu incwm masnachu a gostyngiadau mewn arian grantiau gyda'i gilydd, ceir gostyngiad o £4.94m yng nghyfanswm y cyllid, sy'n cynrychioli gostyngiad o 8.7% mewn termau absoliwt. Fodd bynnag, mewn termau real, os ystyrir chwyddiant a dyfarniadau cyflog, mae'r gostyngiad wedi bod oddeutu 10%.

	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20
Cyllid Awdurdodau Lleol	£3,481,085	£3,376,653	£3,275,353	£3,209,847	£3,145,651
Incwm Masnachu	£924,853	£601,974	£447,460	£0	£0
Cyfanswm y Cyllid Craidd	£4,405,938	£3,978,627	£3,722,813	£3,209,847	£3,145,651
Grantiau	£52,703,146	£56,082,261	£52,033,572	£51,991,066	£49,022,408
<b>Cyfanswm</b>	<b>£57,109,084</b>	<b>£60,060,888</b>	<b>£55,756,385</b>	<b>£55,200,913</b>	<b>£52,168,054</b>
Dirprwywyd i Ysgolion	£47,413,811	£50,384,126	£46,481,315	£48,886,304	£46,142,076
Canran Dirprwyo	90%	90%	89%	94%	94%
Incwm Dros Ben <sup>1</sup>	£7,687,144	£7,668,633	£7,278,655	£6,314,609	£6,025,978

Fodd bynnag, os ystyrir y cynnydd yng nghyfanswm yr arian a ddirprwyir i ystolion, cafwyd gostyngiad o £1.66m neu 21.6% yng nghyfanswm yr incwm dros ben a wariwyd ar redeg y sefydliad, yn cynnwys costau staffio, o 2015-16 i 2019-20.

Yn anochel, mae llai o wariant wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer y staff, ac fe wnaeth nifer y staff Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE) ostwng o 107 yn 2015-16 i 71 yn 2019-20, sy'n golygu fod cyfanswm y gostyngiad mewn staff cyfwerth ag amser llawn yn 36 dros y cyfnod o 2015-16 i 2019-20, sy'n cynrychioli gostyngiad o draean fwy neu lai yn y lefelau staffio.

Mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir bod y GCA yn gwario llai nag yn ystod blynyddoedd blaenorol a bod cyfradd y gostyngiad yn cyflymu, tra bod nifer gyffredinol yr ysgolion sy'n cael eu cynorthwyo heb newid i raddau helaeth.

Fodd bynnag, nid yw gwario llai ynddo'i hun yn dystiolaeth o sicrhau Gwerth am Arian. Mae Cyflawni Gwerth am Arian hefyd yn gofyn bod y gwariant llai yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n galluogi'r sefydliad i gyflawni ei amcanion a'r deilliannau a fwriadwyd. Bydd gweddill yr adroddiad yn ystyried dystiolaeth sy'n ymwneud â pha mor dda mae adnoddau wedi cael eu defnyddio.

**Effeithiolrwydd – gwario'n ddoeth. Mae perfformiad ysgolion a deilliannau disgyblion yn gwella, fodd bynnag, erys problemau sylweddol (yr ymdrinnir â hwy trwy gyfrwng rhaglen gynhwysfawr o gymorth) yn y sector uwchradd.**

Fel y nodwyd eisoes, diben cyffredinol y GCA, fel y nodir yn ei ddatganiad cenhadaeth, yw 'gweddnewid deilliannau addysgol a chyfleoedd bywyd i bob dysgwr ym mhob cwr o Dde Ddwyrain

<sup>1</sup> Mae Incwm Dros Ben yn cynrychioli cost cyflawni'r Cynllun Busnes ar gyfer pob blwyddyn ar ôl dosbarthu'r Grant Llwyddiant Lleiafrifoedd Ethnig a'r Grant Plant Sipsiwn a Theithwyr.

Cymru' ac er mwyn cyflawni hyn, mae wedi nodi ei bod hi'n ofynnol sicrhau profiadau dysgu llwyddiannus i ddisgyblion o bob cwr o'r rhanbarth. Bydd y rhan hon o'r adroddiad yn dadansoddi beth sy'n digwydd i gyflawni hyn, pa mor dda y gwneir hynny, a pha mor llwyddiannus y mae hynny wedi bod.

Un dull o asesu llwyddiant y gwaith yw ystyried deilliannau addysgol a gaiff eu mesur fel a ganlyn:

- canlyniadau'r broses categoreiddio
- Canlyniadau arolygon Estyn; a
- deilliannau disgyblion.

Fodd bynnag, mae'n rhaid cydnabod o'r cychwyn cyntaf na all unrhyw sefydliad neu raglen cymorth gyflawni'r rhain ei hun. I gyflawni'r deilliannau hyn, mae angen cydweithredu ac ymdrech ar y cyd, ac mae angen cyfrifoldeb ac atebolrwydd ar y cyd mewn perthynas â hynny. Mewn perthynas â'r adroddiad hwn, mae'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd ar y cyd yn cwmpasu Llywodraeth Cymru, y GCA, Awdurdodau Lleol ac ysgolion.


Gan ystyried deilliannau addysgol, mae'n ofynnol hefyd ystyried y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru, ynghylch arfarnu a gwella (atebolrwydd) yng Nghymru, i gynorthwyo i wireddu'r cwricwlwm newydd. Bydd y newidiadau hyn yn arwain at newid i hunanwerthuso gan ysgolion unigol. Ystyrir bod hyn yn arwydd o symud i ffwrdd o bwyslais anghymesur canfyddedig ar fesurau perfformiad cul, i ystod ehangach o ddangosyddion sy'n cofnodi'r profiad dysgu cyfan, cynnydd y dysgwr ac uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y cwricwlwm newydd yn well.

#### *Perfformiad ysgolion – Categoreiddio:*


Cyflwynwyd y System Genedlaethol o Gategoreiddio Ysgolion ym Medi 2014. Mae'r system yn rhannu ysgolion mewn pedwar categori, sef gwyrdd, melyn, oren a choch, yn nhrefn ddisgynnol y lefel o gymorth y bernir y mae arnynt ei angen Felly, ystyrir fod ar ysgolion gwyrdd angen y lefel isaf o gymorth a bod ar ysgolion coch angen y lefel fwyaf o gymorth. Nid yw'r system yn seiliedig ar ddata yn unig; mae hefyd yn ystyried ansawdd arweinyddiaeth ac addysgu a dysgu mewn ysgolion. Cafodd y model ei ddatblygu ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r pedwar consortiwm rhanbarthol.

Yn unol â'r newidiadau arfaethedig i arfarnu, gwella ac atebolrwydd a ddisgrifir uchod, cydnabyddir y bydd angen i'r categoreiddio ddatblygu'n broses fwy soffistigedig sy'n ystyried amrywiaeth ehangach o ddangosyddion, megis llesiant dysgwyr. Disgwylir y bydd hyn yn datblygu i fod yn broses reolaidd o ddilysu hunanwerthusiad a blaenoriaethau datblygu ysgolion.

Bydd deilliannau'r broses categoreiddio yn destun proses safoni drylwyr sy'n caniatáu i gymhariaeth ddilys gael ei gwneud o fewn y rhanbarth yn raddol a rhwng deilliannau rhanbarthol a chenedlaethol. Darlunnir sefyllfa ysgolion y rhanbarth isod:



Mae'r tabl uchod yn dangos fod y ganran gyfunol o ysgolion cynradd yn y categorïau gwyrdd a melyn wedi bod yn gyson dros y tair blynedd ddiwethaf, ac mae'n cyd-fynd ar y cyfan â chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, o fewn y darlun hwn o berfformiad cyson, mae'n werth nodi y cafwyd cynnydd o 15 pwynt canran yn nifer yr ysgolion cynradd yn y categori gwyrdd yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, ac o ganlyniad i hynny, mae'r ganran o ysgolion gwyrdd yn y rhanbarth yn fwy na'r ganran yng Nghymru, sef cynnydd o 8 pwynt canran i 11 pwynt canran.



Mae'r tabl uchod yn dangos fod y ganran o ysgolion uwchradd yn y categorïau gwyrdd a melyn wedi cynyddu o 41% yn 2017-18 i 46% yn 2019-20. Yn benodol, cafwyd cynnydd o 8% i 20% yn achos ysgolion sydd yn y categori gwyrdd; mae'r gwelliant hwn wedi culhau'r bwloch rhwng ysgolion yn y categori hwnnw ledled y rhanbarth a rhai ledled Cymru. Mae'r gwelliant hwn wedi arwain at gulhau'r bwloch rhwng ysgolion uwchradd yn y categorïau melyn a gwyrdd ledled y rhanbarth ac ysgolion ledled Cymru yn ystod y cyfnod tair blynedd.

**Perfformiad ysgolion – canlyniadau arolygon:**

Mae canlyniadau arolygon Estyn yn ddull arall yn ddull arall o fesur gwelliannau ysgolion ledled y rhanbarth. Ym Medi 2017, fe wnaeth Estyn gyflwyno fframwaith newydd i farnu perfformiad ysgolion ar sail asesiadau yn cwmpasu'r pum categori dilynol:

- Arweinyddiaeth a rheoli
- Gofal, cymorth ac arweiniad
- Addysgu a Phrofiadau Dysgu
- Llesiant ac agweddau at ddysgu
- Safonau cyflawniad

Yn achos pob categori, bernir fod perfformiad ysgolion yn rhagorol, yn dda, yn ddigonol neu'n anfoddhaol. Fel rhan o'r fframwaith newydd, ni cheir barn gyffredinol ac ni asesir y rhagolygon am welliannau yn y dyfodol. Mae'r gwahaniaeth amlwg hwn o gymharu â'r dull blaenorol, ynghyd â'r ganran gymharol fach o ysgolion a arolygwyd, yn enwedig yn y sector uwchradd, yn cyfyngu i ba raddau y gellir gwneud asesiadau dilys o'r duedd ar sail cymariaethau â dyfarniadau'r gorffennol.. Fodd bynnag, mae'n bosibl gwneud cymariaethau rhwng y dyfarniadau a wnaed ynghylch ysgolion ledled y rhanbarth a rhai ledled Cymru; a rhwng ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd.

O ran y cymariaethau hyn, daw'r darlun canlynol i'r amlwg mewn perthynas â'r cyfnod o 2017 i 2019:

- Roedd canlyniadau cyfunol arolygon ysgolion cynradd ac uwchradd yn cyd-fynd yn gyffredinol â chyfartaledd Cymru ym mhob un o'r pum categori;
- Roedd canlyniadau arolygon o ysgolion uwchradd a arweiniodd at ddyfarniadau anfoddhaol yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan yn achos arweinyddiaeth a rheolaeth, profiadau addysgu a dysgu a safonau cyflawniad;
- Mae canlyniadau arolygu ysgolion uwchradd ar gyfer llesiant ac agweddau at ddysgu wedi gwella ac maent bellach yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan ac mae'r rhai ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad yn cyd-fynd yn fras â'r cyfartaledd;
- Ac eithrio yn achos gofal, cymorth ac arweiniad, ni fernid fod unrhyw ysgol uwchradd yn rhagorol mewn unrhyw gategori;
- Roedd canlyniadau arolygu ysgolion cynradd yn cyd-fynd yn fras â chyfartaledd Cymru gyfan ac fe wnaeth dyfarniadau ynghylch llesiant ac agweddau at ddysgu wella gan ddod yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan;
- Cafwyd rhai barnau rhagorol ar draws y pum categori yn achos ysgolion cynradd gwahanol.

Un dull arall o arfarnu perfformiad ysgolion ar sail barnau arolygon yw ystyried y categori y rhoddir ysgolion ynddo yn dilyn eu harolwg gan Estyn. Yn dilyn arolygon, rhoddir pob ysgol mewn un o'r pedwar categori canlynol:

- Dim angen gweithgarwch dilynol
- Adolygiad gan Estyn
- Gwelliant Sylweddol
- Mesurau Arbennig

Ar sail canlyniadau 74 o arolygon a gynhaliwyd ac yr adroddwyd amdanynt rhwng 2017 a 2020, gellir crynhoi'r sefyllfa mewn perthynas â chategoriâu gweithgarwch dilynol fel a ganlyn:

- 48/60 (80%) o ysgolion uwchradd – dim angen unrhyw weithredu dilynol
- 9/60 (15%) o ysgolion cynradd – adolygiad gan Estyn
- 2/59 (3.3%) o ysgolion cynradd – gwelliant sylweddol
- dim ysgolion cynradd yn destun mesurau arbennig
- 1/9 (11%) o ysgolion uwchradd – dim angen unrhyw weithredu dilynol
- 6/9 (67%) o ysgolion uwchradd – adolygiad gan Estyn
- 2/9 (22%) o ysgolion uwchradd – mesurau arbennig



- 1 uned cyfeirio disgyblion (o blith 2) – adolygiad gan Estyn
- 1 uned cyfeirio disgyblion (o blith 2) – mesurau arbennig

Er bod y darlun hwn o ganlyniadau'r broses adolygu yn giplun sy'n seiliedig ar sampl cymharol fychan, yn enwedig yn achos ysgolion uwchradd, mae'n ddefnyddiol i amlygu ymhellach y gwahaniaeth rhwng perfformiad ysgolion cynradd a pherfformiad ysgolion uwchradd ledled y rhanbarth. Ceir heriau sylweddol mewn llawer o ysgolion uwchradd; nid yw cynnydd yn ddigon da yno, ac mae hyn yn fater allweddol y dylai'r GCA ac awdurdodau lleol barhau i ymateb iddo.

### *Deilliannau disgyblion – Aseidiadau gan Athrawon*

Fel y nodwyd eisoes, yn ogystal ag ystyried mesurau mewn ysgolion, mae deilliannau disgyblion hefyd yn un o ddangosyddion sylfaenol effeithiolrwydd. Yn y gorffennol, mae hynny wedi golygu ystyried canlyniadau ar ddiwedd cyfnodau allweddol a'u dadansoddi o safbwynt tueddiadau hanesyddol a pherfformiad cymharol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn bosibl erbyn hyn, yn dilyn y newidiadau a wnaed yn 2018 i'r defnydd o wybodaeth yn deillio o Aseidiadau gan Athrawon yng Nghymru. Ystyrid fod y newidiadau hyn yn hanfodol er mwyn cynorthwyo i gyflawni'r amcanion allweddol yn nogfen Llywodraeth Cymru, 'Cenhadaeth ein Cenedl', o safbwynt sicrhau trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd trylwyr i gynnal system hunan-wella.

Mae'r newidiadau yn adlewyrchu cred fod canlyniadau cyfanredol Aseidiadau Athrawon wedi cael eu defnyddio at ddibenion atebolrwydd yn llawer iawn rhy hir, gan arwain at ganlyniadau anfwriadol a all effeithio'n negyddol ar y Gwaith o wella safonau ysgolion. Bwriad newidiadau Llywodraeth Cymru yw sicrhau y ceir system fwy cydlynol sy'n rhoi pwyslais ar ddefnyddio aseidiadau athrawon i lywio addysgu a dysgu gwell.

O ganlyniad i hynny, bellach, ni chyhoeddir data aseidiadau athrawon a data'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ar lefel ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia. Mae hyn yn berthnasol i'r Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 2, mewn unrhyw ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir. Mae'r penderfyniad i beidio cyhoeddi gwybodaeth gymharol am aseidiadau gan athrawon a phroffion, mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill o fewn ardal awdurdod lleol neu 'deulu o ysgolion', yn seiliedig ar y gred ganlynol: *"Bydd gwerthuso perfformiad ysgolion unigol yn hytrach na data a gydgesglir ar lefel awdurdodau lleol yn fwy defnyddiol wrth gefnogi a herio ysgolion lleol i wella<sup>2</sup>"*

### *Deilliannau Disgyblion – Cyfnod Allweddol 4:*

Yn 2019, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg y byddid yn cyflwyno cyfres o fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 dros dro a ddatblygwyd trwy gydweithrediad â phenaethiaid a rhanddeiliaid allweddol. Dyluniwyd y mesurau newydd, yn seiliedig ar sgoriau pwyntiau, i gael gwared ar y pwyslais hanesyddol ar y mesur trothwy Lefel 2 a'r ffocws cul ar ddysgwyr sydd ar y ffin rhwng graddau C a D y mae defnydd blaenorol o fesurau trothwy wedi'i feithrin. Yn lle hynny, maent yn adlewyrchu cyfartaledd sgorau pwyntiau disgyblion unigol mewn ysgol, yn hytrach na chanran o ddisgyblion sy'n cyrraedd lefel trothwy isaf.

Dengys y mesurau dros dro hyn, a elwir yn fesurau perfformiad Pwyntiau Cap 9, fod perfformiad ledled y rhanbarth yn 345.2 yn 2019, o gymharu â 353.8 ledled Cymru. Mae'r mesur perfformiad hwn wedi newid ers y llynedd, oherwydd mae'r elfen benodedig graidd bellach yn cynnwys 3 chymhwyster, yn hytrach na'r 5 blaenorol, felly ni ellir gwneud cymariaethau uniongyrchol. Fodd

<sup>2</sup> Llythyr ar y cyd oddi wrth Llywodraeth Cymru, Estyn a Chymdeithas Lywodraeth Leol Cymru Gorffennaf 2019

bynag, gellir ystyried tueddiadau, ac yn 2018, roedd perfformiad o safbwynt y mesur hwn yn 333.2 o bwyntiau, o gymharu â chyfartaledd o 349.5 o bwyntiau ar lefel Cymru, felly mae'r bwch rhwng y rhanbarth a Chymru wedi gostwng o 16.3 pwynt i 8.6 pwynt.

Darperid data meincnodi cenedlaethol yn flaenorol i alluogi cymhariaeth ag ysgolion eraill sy'n wynebu amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd tebyg, i annog cydweithredu. Fodd bynnag, ystyrir erbyn hyn fod y defnydd o feincnodi wedi sbarduno cystadlu rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol, yn hytrach na chydweithredu. Felly, ni fydd y data hyn yn cael eu darparu bellach.

Er bod cyfyngiadau sylweddol erbyn hyn o safbwynt cyhoeddi data, nid yw hynny'n golygu nad yw data'n cael eu casglu, eu dadansoddi a'u defnyddio. Mae'r GCA yn dal i allu cyrchu'r data a oedd ganddynt yn y gorffennol, ac mae hynny'n rhan o ystod eang o ddata a gwybodaeth heb eu cydgrynhoi a ddefnyddir i arfarnu perfformiad ysgolion a llunio adroddiadau am hynny. Mae hyn yn gyson â safbwynt sydd eisoes wedi'i ddatgan: *'Bydd gwerthuso perfformiad ysgolion unigol yn hytrach na data a gydgesglir ar lefel awdurdodau lleol yn fwy defnyddiol wrth gefnogi a herio ysgolion lleol i wella.'*<sup>3</sup>

Mae cymorth a her gan y GCA i ysgolion unigol i hyrwyddo gwelliant yn seiliedig ar ddull strategol o symud yn gynyddol tuag at system hunan-wella, â chyfanswm cynyddol o'r gwaith cynorthwyo, herio a datblygu yn cael ei wneud gan ysgolion eu hunain: ategir hynny gan raglen o fuddsoddiadau i ddatblygu gallu ysgolion a lleoliadau addysgol yn y rhanbarth i alluogi a hwyluso dulliau mwy cydweithredol o weithio. Mae'r dull hwn yn caniatáu i athrawon ac arweinyddion i ddysgu oddi wrth ei gilydd, i roi cynnig ar ddulliau newydd a chyfranogi mewn ymchwil addysg fel cyd-destun ar gyfer gwelliannau. Ar draws y rhanbarth ar hyn o bryd, mae'r GCA yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gynorthwyo a herio ysgolion i wella. Caiff effaith ac effeithiolrwydd y strategaethau eu hadolygu'n rheolaidd trwy gyfrwng prosesau mewnol ac allanol.

Gellir crynhoi'r strategaethau cynorthwyo a herio hyn fel a ganlyn:

- rôl yr Ymgynghorydd Her o ran cynorthwyo ysgolion, brocera cymorth ar eu cyfer a herio cyflymder y cynnydd a wneir ganddynt i fynd i'r afael â'u blaenoriaethau canfyddadwy.
- rôl swyddogion y GCA (yn cynnwys cymorth ynghylch pynciau penodol, cymorth i lywodraethwyr, llesiant a thegwch) o ran cynorthwyo ysgolion, brocera cymorth ar eu cyfer a herio cyflymder a herio cyflymder y cynnydd a wneir ganddynt i fynd i'r afael â'u blaenoriaethau canfyddadwy.
- mynediad at rwydweithiau a ariennir o ysgolion sy'n cynorthwyo â phob agwedd o ddatblygiad proffesiynol a gwella ysgolion, gan ganolbwyntio ar wella ansawdd arweinyddiaeth ac addysgu a dysgu;
- mynediad at ystod eang o ddarpariaethau dysgu proffesiynol, yn cynnwys rhai sydd ag opsiynau achredu ar gyfer cynorthwyr addysgu, athrawon ac arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion;
- cydweithio rhwng cymheiriaid ac adolygiadau gan gymheiriaid;
- y defnydd o anogwyr a mentoriaid hyfforddedig ac achrededig (o'r rhanbarth ac o fannau eraill) i gynorthwyo athrawon ac arweinwyr; a
- mynediad at ddeunyddiau e-ddysgu ac adnoddau o ansawdd uchel.

<sup>3</sup> Llythyr ar y cyd oddi wrth Llywodraeth Cymru, Estyn a Chymdeithas Lywodraeth Leol Cymru Gorffennaf 2019

Mae arfarnu perfformiad ysgolion unigol hefyd yn golygu mynd i'r afael â'r broblem o ysgolion sy'n tanberfformio ledled y rhanbarth trwy gyfrwng y broses Ysgolion sy'n Achos Pryder. Er y gall ysgolion cynradd ac uwchradd fod yn destun pryder, mae'n rhaid cydnabod, ar sail yr holl fesurau (categorioidio, barn arolygon, a chanlyniadau cyfnodau allweddol), fod perfformiad ysgolion uwchradd ledled y rhanbarth gryn dipyn yn is na pherfformiad ysgolion cynradd.

Caiff Ysgolion sy'n Achos Pryder eu cynnwys mewn cofrestr sy'n seiliedig ar ystod o feini prawf, a chaiff y penderfyniad i'w cynnwys eu cytuno gan Gyfarwyddwyr Addysg yr Awdurdodau Lleol a Rheolwr Gyfarwyddwr y GCA. Caiff y Pennaeth a'r Corff Llywodraeth eu hysbysu os caiff eu hysgol ei chynnwys yn y Gofrestr o Ysgolion sy'n Achos Pryder.

Caiff y gofrestr ei hadolygu bob tymor gan uwch swyddogion yn yr Awdurdodau Lleol a'r GCA, i sicrhau fod lefelau'r cymorth a'r her yn gyson. Hefyd, trafodir cynnydd ysgolion yn y cyfarfodydd a gynhelir bob tymor gyda phob un o aelodau cabinet yr Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am addysg. Yn dilyn y cyfarfodydd hyn, hysbysir ysgolion os bydd unrhyw newidiadau o ran eu cynnwys yn y gofrestr neu os bydd unrhyw ddiweddariadau o ran cymorth.

Dyma grynodedeb o'r gofrestr yn nhymor yr hydref 2019:

- Bellach, mae cyfanswm o 37 o ysgolion wedi'u cynnwys yn y gofrestr. Mae 20 o'r rhain yn ysgolion uwchradd. Mae hyn yn adlewyrchu canlyniadau yn y sector a'r risg mwy sy'n gysylltiedig â thanberfformiad mewn ysgolion uwchradd.
- O blith y 37 ysgol, mae 23 ohonynt wedi cael eu cynnwys yn ystod y flwyddyn academaidd hon.
- Mae 5 ysgol wedi cael eu diddymu o'r rhestr yn ystod y flwyddyn hon, oherwydd maent wedi gwneud cynnydd digonol sy'n golygu na ellir cyfiawnhau eu cynnwys yn y gofrestr erbyn hyn.

Yn 2019-20, mae nifer yr ysgolion sydd wedi cael eu diddymu o'r rhestr wedi bod yn llai na'r nifer sydd wedi cael eu cynnwys, a cheir pryderon ynghylch perfformiad ysgolion uwchradd ledled y rhanbarth. Mae 32 (13.5%) o blith y 238 ysgol ledled y rhanbarth yn ysgolion uwchradd, ond mae 20 o blith y 37 ysgol (62.5%) ar y gofrestr o ysgolion sy'n achosi pryder yn ysgolion uwchradd. Mae hynny'n golygu fod mwy na hanner (54%) yr ysgolion uwchradd wedi'u cynnwys yn y gofrestr o ysgolion sy'n achos pryder.

Mae'r holl ysgolion sydd wedi'u nodi wedi cyfranogi'n llawn yn y broses Ysgolion sy'n Achos Pryder yn ystod 2019-20, ac mewn sawl achos, roedd ysgolion wedi gwneud cynnydd yn ystod y flwyddyn. Roedd hi'n amlwg hefyd fod bron iawn pob Pennaeth a llywodraethwr wedi ymateb yn gadarnhaol i gyngor a gafwyd gan swyddogion y GCA ac ALI.

I geisio mireinio ei ddull gweithredu ymhellach, mae'r GCA yn bwriadu:

- cynnal peilot o ddull 'Tîm o Amgylch yr Ysgol' sy'n cynnwys y broses Ysgolion sy'n Achos Pryder
- sicrhau fod pob cyfarfod yn llunio barn ar y cyd yn seiliedig ar feini prawf barnu'r protocol;  
a
- Chydweithio ag ALI i sicrhau nad yw ysgolion yn cynhyrchu cyfanswm gormodol ac ychwanegol o waith papur mewn perthynas â'r cyfarfodydd hyn

Fodd bynnag, felly dengys y ffigyrau ynghylch cyfansoddiad y gofrestr, erys risgiau ynghylch cyflymder y broses o fynd i'r afael â thanberfformiad arweinwyr, yn enwedig ar lefel ysgolion uwchradd. Mae hyn yn dal yn anhawster i gyrrff llywodraethu, awdurdodau lleol a'r GCA, felly y dengys y dyfyniad hwn: *'.....ceir heriau sylweddol mewn llawer o ysgolion uwchradd, lle nad yw'r cynnydd yn ddigon da. Mae yn fater allweddol i'r GCA a hwn yw ei flaenoriaeth bennaf'*.

**Tegwch – gwario'n deg. Mae'r GCA wedi sicrhau fod gwella llesiant disgyblion yn flaenoriaeth, yn enwedig i'r rhai sy'n wynebu'r heriau mwyaf, ac mae ei ddull gwerthu yn galluogi cynnydd sylweddol.**

Mae'n werth pwysleisio yma fod amcan y GCA yn cyfeirio at: *'sicrhau...lefelau uchel o lesiant, yn enwedig i'r rhai sy'n wynebu'r heriau mwyaf'* a bydd rhan nesaf yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar waith sy'n cael ei wneud i gyflawni'r amcan hwnnw.

Mae'r dyfyniad canlynol yn pwysleisio rôl allweddol y gwaith hwn yn y GCA: *'Mae hyn yn cyfleu neges bwysig i ysgolion bod angen iddynt ymwneud â rhagoriaeth a thegwch a bod y GCA a Llywodraeth Cymru yr un mor bryderus am gynnydd grwpiau agored i niwed a lles plant ag y maent am ragoriaeth academaidd. Nid yw hyn yn ddull seilo wedi'u rannu'n adrannau yn y GCA, ond dull gwirioneddol gyd-gysylltiedig sy'n cysylltu â'r broses cynllunio busnes, y broses Cynlluniau Datblygu Ysgolion, gosod targedau lleol a'r protocol ysgolion sy'n achosi pryder. Mae perthnasoedd da wedi'u sefydlu â'r bobl allweddol ym mhob awdurdod lleol ac mae'r GCA, yn briodol, wedi bod yn glir iawn ynghylch beth yw ei rôl o safbwynt materion lles eang, Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALN) a diogelu eang. Mae gwaith da wedi cael ei wneud i sicrhau fod defnydd o gyllid y Grant Datblygu Disgyblion yn seiliedig ar dystiolaeth – yn cynnwys y defnydd o Baneli Proffesiynol'*.

Fel rhan o'i rôl yn cynorthwyo'r sawl sy'n wynebu'r heriau mwyaf, mae'r GCA yn gweithio trwy bartneriaeth â Chanolfan Cymorth ACEs (Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod) Cymru i hyfforddi ei ysgolion i ddatblygu ymwybyddiaeth o ACEs a'u heffaith ar ddysgu ac iechyd meddwl. Mae dysgwyr sy'n agored i niwed - yn cynnwys llawer sydd wedi profi ACEs - yn cynnwys plant y ceir arian grantiau i'w cynorthwyo sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a'r sawl sy'n rhan o'r system gofal.

Yn fwy penodol, trwy bartneriaeth â Chanolfan Cymorth ACEs Cymru, mae'r GCA wedi cyflwyno rhaglen *hyfforddi'r hyfforddwyr* i hyfforddi llysgennad ACES, a elwir yn arweinydd llesiant, ym mhob ysgol. Mae'r arweinwyr llesiant hyn wedi cael cyfrifoldeb i sefydlu ymwybyddiaeth o ACES yn eu hysgolion unigol. Yn ystod pum tymor ysgol o 2018 i 2019, fe wnaeth y rhaglen ddarparu hyfforddiant cychwynnol i holl ysgolion y consortiwm. Erbyn Gorffennaf 2020, y nod oedd bod wedi rhedeg hyfforddiant fel rhan o ail fodiwl ACEs ar gyfer ysgolion sy'n eu hannog i ystyried cymell emosiynol a darparu lle diogel i'w dysgwyr sy'n agored i niwed. Ceir trydedd haen o hyfforddiant staff hefyd, ar gyfer ysgolion sy'n dymuno rhoi sylw manylach i'r pwnc. Mae hyn yn cynnwys pum awr o weithdai datblygu staff sy'n ymdrin ag effaith ymlyniad ar ddatblygiad yr ymennydd, datblygu cydnherthedd disgyblion a chanolbwyntio ar les yr addysgwyr eu hunain. Yn anochel, cwtogwyd y rhaglen o ganlyniad i gau ysgolion mewn ymateb i'r pandemig Coronafeirws, ond hyd yn hyn:

- mae dros hanner yr ysgolion ledled y rhanbarth wedi derbyn hyfforddiant uned dau; ac
- mae 80 o ysgolion wedi cyfranogi yn nhrydedd haen yr hyfforddiant.

Mae'r GCA yn cadw cofrestr o'r ysgolion sydd wedi'u hyfforddi a'u cynnydd yn ystod eu taith ACEs fel nad oes yr un ohonynt yn cwmpo trwy'r bylchau, a bydd yn cynnal "sesiynau dal i fyny" ar gyfer ysgolion a fydd yn colli eu harweinydd llesiant am ba bynnag reswm a bydd arnynt angen rhagor o hyfforddiant arnynt.

Mae'r adborth gan yr ysgolion yn y consortiwm wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan, o safbwynt sut mae staff wedi cyfranogi yn yr hyfforddiant, a sut, o fewn y consortiwm, mae ysgolion wedi rhannu

<sup>4</sup> Adolygiad o'r GCA, Hydref 2019: Steve Munby

<sup>5</sup> Adolygiad o'r GCA, Hydref 2019: Steve Munby

arferion da er mwyn gwella'r cymorth sydd ar gael i'w dysgwyr sy'n agored i niwed. Mae rhannu o fewn clystyrau (grwpiau o ysgolion cynradd sy'n 'bwydo' ysgol uwchradd benodol) wedi helpu disgyblion sy'n agored i niwed i bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Bellach, bydd rhai ysgolion uwchradd yn casglu gwybodaeth gan yr ysgolion cynradd er mwyn cynorthwyo eu disgyblion mwyaf agored i niwed, ac yn llunio cynlluniau pontio ar wahân ar gyfer y plant mwyaf heriol.

Mae llawer o'r ysgolion uwchradd sy'n rhan o gonsortiw m y GCA wedi sefydlu eu canolfannau llesiant eu hunain i ddarparu amgylchedd diogel i'w dysgwyr sy'n agored i niwed a'u helpu i gyfranogi ym mywyd yr ysgol. Mae'r ysgolion uwchradd sy'n datblygu'r canolfannau hyn yn profi gostyngiad yng nghyfraddau'r gwaharddiadau a chynnydd yng nghyfraddau presenoldeb. Mae'r canolfannau yn gwneud cyfraniad neilltuol o bwysig at gynnig sicrwydd i blant sy'n pontio o'r ysgol gynradd, ble maent yn aml wedi elwa o raglenni anogaeth a chymorth dwys.

Yn 2019, fe wnaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru gomisiynu ymchwil ynghylch effeithiolrwydd y gwaith o gyflwyno Ymwybyddiaeth o ACEs ledled rhanbarth y GCA. Dywed yr adroddiad y canlynol:

- Mae'r adborth a dderbyniwyd gan gyfanswm o 88 o ysgolion a 1,707 o unigolion yn nodi bod y sawl sy'n derbyn hyfforddiant 'Llysgenhadon ACEs' yn ei ystyried yn ddefnyddiol i'w gwaith a bod y rhaglen Hyfforddi'r Hyfforddwr wedi gwneud argraff ffafriol arnynt. Serch hynny, er bod y sylwadau ynghylch cynnwys a darpariaeth yr hyfforddiant a ddarparwyd sgan Lysgenhadon ACE yn gadarnhaol ar y cyfan, roedd yn ymddangos fel petai rhai o'r bobl a gafodd yr hyfforddiant yn credu y dylai'r hyfforddiant fod wedi bod yn fwy rhyngweithiol.
- Ar y cyfan, mae canfyddiadau'r astudiaeth hon yn awgrymu fod y rhaglen Hyfforddi'r Hyfforddwyr wedi bod yn ddull effeithiol o ddatblygu dysgu proffesiynol ynghylch ACEs mewn ysgolion ledled rhanbarth y GCA.

Mae rôl flaenllaw y GCA o safbwynt cynorthwyo â'r agenda llesiant yn cael ei adlewyrchu yn y ffaith fod pwyntiau dysgu allweddol o ysgolion yng nghonsortiw m y GCA yn cael eu defnyddio i arfarnu'r dull hyfforddi'r hyfforddwyr i hysbysu'r broses o'i gyflwyno mewn ysgolion yr ardaloedd y consortia eraill yng Nghymru.

Bwriad dull gweithredu'r GCA yw gwella cynnydd pob dysgwr agored i niwed a'r ddarpariaeth ar eu cyfer, a bydd ei effeithiolrwydd yn cael ei fonitro, a'i herio yn ôl yr angen, trwy waith ymgynghorwyr her, byrddau gwella addysg a chyfarfodydd ymyrryd. Caiff effeithiolrwydd ei fesur yn ansoddol trwy gyfrwng:

- cynigion cwricwlwm gwell;
- gwell cyfranogiad gan ofalwyr yn ystod cyfarfodydd i ymgynghori â rhieni a nosweithiau trafod dewisiadau; a
- her a darpariaeth briodol ar gyfer pob grŵp o ddysgwyr.

ac yn feintiol trwy gyfrwng y canlynol:

- presenoldeb gwell;
- llai o waharddiadau (gwaharddiadau mewnol a gwaharddiadau cyfnod penodol ffurfiol); a
- chyflawniad gwell gan ddysgwyr agored i niwed.

Nid yw data ar bresenoldeb, gwaharddiadau a chyrhaeddiad ar gyfer dysgwyr agored i niwed yn cael eu casglu ar hyn o bryd a bydd yn rhaid i'r GCA ganfod dull o gasglu'r data penodol hyn i sicrhau y gall wireddu ei fwriad i ddefnyddio mesurau mesuradwy i arfarnu effeithiolrwydd.

**Effeithlonrwydd – gwario'n dda. Mae ansawdd y gweithlu yn cael ei wella trwy ddarparu rhaglenni helaeth i ddatblygu sgiliau addysgu ac arweinyddiaeth ledled y rhanbarth, â buddion cadarnhaol eglur o safbwynt ansawdd addysgu a dysgu.**

Mae cyfraniad hanfodol ansawdd yr addysgu a'r arweinyddiaeth wrth sicrhau profiadau dysgu llwyddiannus yn hunanesboniadol ac yn cael ei gydnabod yn helaeth, ac mae'n cael ei gyfleu gan y dyfyniad canlynol:

*“Y dyddiau hyn, wrth gwrs, cydnabyddir yn mai'r hyn sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i ddeilliannau disgyblion, yn ail yn unig i ansawdd yr addysgu ei hun, yw arweinyddiaeth”* (Mead 2018)

Mae'r GCA yn darparu ystod o wasanaethau sydd wedi'u cynllunio i wella ansawdd yr addysgu a'r arweinyddiaeth mewn ysgolion ledled y rhanbarth. Mae'r gefnogaeth hon yn cynnwys yr haenau amrywiol o weithwyr proffesiynol - arweinwyr, athrawon a staff cymorth dysgu - sydd â chyfrifoldeb ar y cyd am '*sicrhau profiadau dysgu llwyddiannus*'.

Yn yr adroddiad hwn - at ddibenion cyflwyno - mae'r cymorth a ddarperir i'r haenau amrywiol yn cael ei drafod fel elfennau ar wahân o'r pecyn cymorth cyffredinol. Fodd bynnag, er enghraifft, fel y dangosir isod, gall gwelliannau mewn arweinyddiaeth ddylanwadu'n gadarnhaol iawn ar ansawdd yr addysgu mewn ysgol ac mae'r pecynnau cymorth amrywiol yn ategu ei gilydd yn hytrach nag yn elfennau ar wahân.

Ni fyddai'n briodol, o fewn adroddiad ynghylch Gwerth am Arian, cyfleu disgrifiad manwl o'r ystod lawn o gymorth a ddarperir. Disgrifir rhai enghreifftiau yma i gynnig cipolwg ar y dull o bennu anghenion am gymorth a darparu gwasanaethau i ddiwallu'r anghenion hynny.

#### *Cymorth ynghylch Arweinyddiaeth:*

Mae'r angen dybryd i wella arweinyddiaeth mewn ysgolion ledled y rhanbarth yn amlwg wrth ystyried canfyddiadau adroddiadau arolygon ynghylch arweinyddiaeth yn y rhanbarth o'i gymharu â'r darlun cenedlaethol a amlinellwyd yn adroddiad blynyddol Estyn ar gyfer 2018/19. Mae'r adroddiad cenedlaethol yn datgan y canlynol:

- Mae arweinyddiaeth yn dda neu'n rhagorol mewn rhyw dri chwarter o ysgolion cynradd a rhyw hanner o ysgolion uwchradd.
- Mewn ysgolion uwchradd gwannach, nid yw rôl arweinwyr canol wedi'i datblygu'n ddigonol yn aml. Nid yw arweinwyr canol yn cael digon o gyfleoedd i arwain mentrau, i werthuso deilliannau nac i nodi meysydd i'w datblygu ac i gynllunio ar gyfer gwelliant.

#### Ledled rhanbarth y GCA:

- Roedd 22% o argymhellion Estyn rhwng 2016 a 2020 yn ymwneud â datblygu agweddau yn ymwneud ag arweinyddiaeth. Fodd bynnag, mewn ysgolion uwchradd, roedd 32% o'r holl argymhellion yn ymwneud ag agweddau arweinyddiaeth, o gymharu â dim ond 18% yn achos ysgolion cynradd.

Mewn ymateb i'r angen dybryd y cyfeirir ato uchod, mae'r GCA wedi datblygu a mireinio rhaglen helaeth o gymorth proffesiynol ynghylch arweinyddiaeth, sy'n seiliedig ar y defnydd o'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Arweinyddiaeth, ar draws sawl haen, gan gynnwys:

- penaethiaid profiadol;
- penaethiaid newydd a dros dro;
- dirprwy benaethiaid a phenaethiaid cynorthwyol;
- darpar benaethiaid; ac
- arweinwyr canol.

Ar gyfer *Penaethiaid Profiadol*, mae'r GCA yn rhedeg Rhaglenni Dysgu Proffesiynol wedi'u cymeradwyo gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysg (NAEL) sydd wedi'u cynllunio i nodi a datblygu cohort rhanbarthol cynyddol o arweinwyr uchelgeisiol, penaethiaid sy'n

gwasanaethu ar hyn o bryd a phenaethiaid profiadol i ehangu cyfleoedd arweinyddiaeth sy'n cwmpasu pob rhan o'r system.

Mae proffil demograffig penaethiaid ledled y rhanbarth yn pwysleisio'r angen am raglen o'r fath. Yn 2018, ledled rhanbarth y GCA, roedd 20.3% o benaethiaid yn 55 mlwydd oed neu'n hŷn, ac felly, gallent fod yn gymwys i ymddeol yn gynnar ar unrhyw adeg. O ganlyniad, mae datblygu penaethiaid profiadol ledled rhanbarth y GCA, i gynorthwyo i gynnal system hunan-wella yn y dyfodol, yn bwysig o safbwynt datblygu llwybr datblygu arweinyddiaeth cynaliadwy.

Mae *Penaethiaid Newydd a Dros Dro* yn arweinwyr y mae arnynt angen cymorth ac anogaeth yn gynnar yn ystod eu profiad o Brifathrawiaethau. I ddiwallu'r angen hon, mae'r GCA, ar y cyd â'r rhanbarthau eraill, wedi datblygu rhaglen datblygu Penaethiaid Newydd a Dros Dro sy'n cael ei chymeradwyo gan NAEL, ac mae'n rhan o arlwy dysgu proffesiynol genedlaethol ynghylch datblygu arweinyddiaeth sy'n cwmpasu'r holl ranbarthau.

Datblygwyd y rhaglen ddatblygu mewn ymateb i'r angen i sicrhau bod gofynion recriwtio yn cael eu diwallu gan arweinwyr sy'n gymwys ac yn barod i ddod yn Benaethiaid ledled Rhanbarth y GCA a Chymru. Felly, mae'n bwysig recriwtio a chadw arweinwyr ysbrydoledig o ansawdd uchel ar ledled Rhanbarth y GCA; sy'n teimlo eu bod yn cael eu cynorthwyo a'u datblygu trwy'r profiadau dysgu proffesiynol y byddant yn cyfranogi ynddynt.

Mae'r GCA yn darparu rhwydweithiau a chyfleoedd Dysgu Proffesiynol (DP) rheolaidd, ar gyfer dirprwy benaethiaid a phenaethiaid cynorthwyol (cynradd ac uwchradd) sydd mewn swydd ar hyn o bryd, ysgolion arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion, i sicrhau eu bod yn wybodus am flaenoriaethau, cymorth ac arferion gorau ar y lefelau rhanbarthol a chenedlaethol. Y bwriad yw nodi darpar arweinwyr ledled y rhanbarthol, darparu DP pwrpasol a chynnig cyfleoedd iddynt profi arweinyddiaeth o fewn lleoliadau gwahanol.

Yn benodol, ledled y rhanbarth, mae'r GCA yn cydnabod yr angen i ddeall dyheadau arweinwyr ar bob lefel; yr angen i nodi'r arweinwyr uchelgeisiol hynny ar draws y system ac olrhain y cymorth a'r cyfleoedd dysgu proffesiynol a ddarperir iddynt. Cydnabyddir yr angen i ddatblygu'r arweinwyr hyn i ddarparu arweinyddiaeth gref a gwella addysgu a dysgu mewn ysgolion ledled y rhanbarth, yn enwedig y rhai yn y sector uwchradd.

Mae'r GCA wedi paratoi a darparu, mewn cydweithrediad â rhanbarthau eraill, cyfle DP o ansawdd uchel a gymeradwyir gan NAEL ar gyfer *Darpar Benaethiaid*, i'w cynorthwyo i gyflawni'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP).

Yn 2020, o blith y 30 ymgeisydd o ranbarth y GCA, fe wnaeth 24 gyflawni'r CPCP. Mae hyn yn gyfradd llwyddiant o 80% o gymharu â 74% yn 2018/19, 70% yn 2017/18 ac 82% yn 2016/17. Roedd y gyfradd dybiannol genedlaethol gyffredinol yn 83%. Roedd y cyfanswm o 24 ymgeisydd llwyddiannus yn llai o 5 na'r nifer uchaf blaenorol o 29 a gyflawnwyd yn 2018/19.

Ar gyfer *Arweinwyr Canol*, mae'r GCA wedi cyfranogi yn y gwaith o adolygu a darparu Rhaglen Datblygu Arweinwyr Canol a gymeradwyir gan NAEL. Mae'r rhaglen hon yn darparu portffolio helaeth o gyfleoedd datblygu arweinyddiaeth (wedi'u cymeradwyo, fel y bo'n briodol, gan NAEL) sy'n diwallu anghenion pob sector. Cyflwynir y rhaglen trwy bartneriaeth â sefydliadau addysg uwch, consortia rhanbarthol a sefydliadau haen ganol eraill.

I grynhoi, disgwylir, mewn perthynas ag arweinyddiaeth ledled y rhanbarth, y bydd y buddsoddiad a'r datblygiad parhaus hwn yn y pen draw yn darparu cyflenwad cynaliadwy o arweinwyr canol, uwch arweinwyr a Phenaethiaid rhagorol at y dyfodol.

#### *Cymorth ag Addysgu a Dysgu:*

Un enghraifft o'r cymorth sy'n cael ei ddarparu yw dylunio a gweithredu rhaglen i wella *ansawdd a chysondeb yr addysgu, yn enwedig yn y cyfnod uwchradd*.

Diben y rhaglen yw mynd i'r afael â diffygion sy'n cael eu hamlygu yn nata arolygon. Dengys y data hyn fod canlyniadau arolygon o ysgolion uwchradd rhwng 2017 a 2019 a arweiniodd at ddyfarniadau anfoddhaol yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan yn achos arweinyddiaeth a rheolaeth, profiadau addysgu a dysgu a safonau cyflawniad. Ledled y rhanbarth, mae 7 o blith naw ysgol uwchradd wedi'u gosod yn un o gategoriâu statudol Estyn, ac mae pob un o'r ysgolion hyn wedi cael argymhelliad i wella eu dull o addysgu a dysgu.

Yn hanesyddol, mae'r GCA wedi darparu cymorth ar gyfer addysgu a dysgu, naill ai cymorth a gaiff ei gydlynw a'i frocera gan Ymgynghorwyr Her, neu gymorth a gaiff ei ddarparu gan ymgynghorwyr pynciau. Er bod hyn wedi bod yn ddylanwadol i raddau mewn rhai meysydd, cafwyd llai o ddylanwad ar wella ansawdd addysgu a dysgu ar draws yr ysgol.

Mae'r dull sydd bellach yn cael ei fabwysiadu yn ychwanegu at y strategaethau gwella ysgolion presennol y mae'r GCA yn ymwneud â hwy, i gynorthwyo i sicrhau gwelliannau mewn addysgu a dysgu:

- y rhaglenni gwaith Cymheiriaid, sy'n cael eu harwain gan yr Athro Mick Waters (cyfeirir at hynny yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn)
- y prosiect arwain dysgu cydweithredol gyda Dr Lyn Sharratt.
- prosiect RADY (Gwella Cyflawniad Ieuenctid Difreintiedig) a thystiolaeth gan y Sefydliad Gwaddol Addysg (EEF).

Ystyrir fod y rhaglen hon yn strategaeth ymgysylltu tymor hir, yn cael ei chynnal yn ystod dwy flwyddyn cynllunio busnes o leiaf, ac mae wedi cael ei dylunio i geisio sicrhau ei bod yn gwneud y canlynol:

- sicrhau ei fod yn cyd-fynd â strategaethau llwyddiannus presennol i wella ysgolion;
- cynorthwyo'r Uwch Dimau Arwain i ymgysylltu â phob rhanddeiliad allweddol o safbwynt deall eu man cychwyn presennol a'r canlyniad a ddymunir;
- adlewyrchu agenda presennol diwygio addysg
- dylanwadu ar gysondeb ac ansawdd addysgu a dysgu, gan leihau amrywiad yn yr ysgol, ac felly, gwella canlyniadau i bob dysgwr;
- gwneud defnydd o'r gwersi a ddysgir o'r system addysgol ehangach yng Nghymru a thu hwnt; a
- datblygu'r gallu i gynorthwyo i ddatblygu ymagweddau cyffredin at addysgeg ac iaith dysgu a rennir.

Ers Ionawr 2019, mae'r GCA wedi bod yn archwilio gwahanol Fodelau o Waith trwy Gydweithrediad â Chymheiriaid ar y cyd â'r Athro Mick Waters trwy gyfrwng rhaglen o'r enw: *'Dull arweinyddiaeth gydweithredol o wella ysgolion - Ymchwil gweithredol ynghylch modelau effeithiol o gydweithio rhwng cymheiriaid ac adolygiadau gan gymheiriaid'*.

Mae'r rhaglen yn cyd-fynd â'r bwriad ledled Cymru i ddatblygu bob ysgol fel sefydliadau sy'n dysgu, i gynorthwyo â'r gwaith o ddiwygio'r cwricwlwm sy'n mynd rhagddo. Mae'r fformat cydweithio rhwng cymheiriaid yn seiliedig ar yr athroniaeth o gydweithio rhwng ysgolion sy'n cael ei ystyried trwy gyfrwng y model Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu (YSD), ac fel y nodir yn yr adroddiad ynghylch Datblygu Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu a gyhoeddwyd gan yr OECD yn 2018, mae'n



cydnabod fod ysgolion uwchradd yn benodol yn ei chael hi'n anoddach datblygu fel sefydliadau sy'n dysgu.

Fel rhan o'r rhaglen, bydd y GCA yn nodi, yn cynorthwyo i gynnal ac yn arfarnu ystod o fodelau cydweithio rhwng cymheiriaid i ddatblygu arweinyddiaeth ac addysgeg effeithiol mewn ysgolion. Mae hynny'n cynnwys:

- y rhyngwyneb rhwng y cynradd a'r uwchradd: ac
- adrannau sy'n addysgu pynciau craidd a di-graidd yn y cyfnod uwchradd.

Dewiswyd y modelau hyn i gyflymu datblygiad diwylliant o gydweithredu a gweithio ar y cyd, ag ysgolion yn cydweithio ag ysgolion eraill i sicrhau gwelliannau.

Fe wnaeth gweithredu'r prosiect alluogi arweinwyr ac ymarferwyr i rannu a datblygu arferion er mwyn gela arweinyddiaeth, addysgu a dysgu yn eu cyd-destunau eu hunain, yn enwedig o fewn y cyfnod uwchradd. Roedd hyn yn rhan o raglen gynlluniedig 2 flynedd â gwerthusiadau dros dro. Cafodd y rhaglen ei gweithredu ledled y rhanbarth yn ystod tymor y Gwanwyn ac ar ddechrau tymor yr Haf yn 2019.

Ym Mehefin 2019, cafodd yr Athro Waters gyfarfodydd gyda bron iawn pob un o'r Penaethiaid oedd yn cyfranogi i adolygu'r rhaglen, a lluniodd werthusiad o'r effaith ar sail eu hymatebion. Yn gyffredinol, credai'r ysgolion oedd wedi cyfranogi yn y rhaglen fod hynny wedi bod yn brofiad gwerth chweil a llwyddiannus i'r mwyafrif o ysgolion. Fe wnaeth y gwerthusiad argymhell y byddai '...mwy o wahaniaethu o ran y dull yn achos bob model yn sicrhau mwy o effeithiolrwydd', yn ogystal â '...chohort llai ag ystod fwy cyfyngedig o fodelau dros gyfnod hirach.'

Yn y cyd-destun hwn, cafodd modelau'r flwyddyn gyntaf eu mireinio a'u haddasu ar gyfer 2019-2020. Erbyn mis Mawrth 2020, llwyddwyd i gynnal llawer o ymweliadau ag ysgolion fel rhan o'r rhaglen, ond bwriedid cynnal llawer o ymweliadau hefyd yn y cyfnod o fis Mawrth i fis Mai, i baratoi at y gwaith o gwblhau'r gwerthusiad yn barod at ddiwrnod adolygu'r Athro Waters ar 22 Mehefin 2020. Ar yr adeg hon, gwnaed penderfyniad ar y lefel genedlaethol i gau ysgolion, a chafodd y rhaglen ei hatal dros dro.

Mae'r GCA wedi ymrwymo i gynorthwyo i ddatblygu llwybrau dysgu cenedlaethol ar gyfer *Gweithwyr Cymorth Dysgu* a chyflawni'r llwybrau hynny yn y rhanbarth.

Ystyrir fod buddsoddi yn y boblogaeth o gynorthwywyr addysgu yn flaenoriaeth yn y rhanbarth, oherwydd maent yn cynrychioli 48% o gyfanswm poblogaeth gweithlu ysgolion rhanbarth y GCA. Mae Cenhadaeth ein Cenedl yn nodi fod angen i'r gweithlu cyfan gael hawl i ddatblygu'n unigol, beth bynnag fo'r rôl a wneir ganddynt i gynorthwyo ysgolion i wella, ac yn y pen draw, i wella deilliannau ar gyfer pob dysgwr.

Mae'r ymchwil a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Gwaddol Addysg yn 2018, sef "*Making the best use of teaching assistants - a report summary*" yn datgan y gellir defnyddio cynorthwywyr addysg yn effeithiol mewn tri phrif faes, yn cynnwys:

- defnydd effeithiol o gynorthwywyr addysgol dan amgylchiadau arferol dosbarthiadau;
- y defnydd effeithiol o gynorthwywyr addysgu i ddarparu ymyriadau strwythuredig; a
- gwaith dysgu integredig sy'n cael ei arwain gan athrawon a chynorthwywyr addysgu.

Cafodd y dull dysgu proffesiynol a fabwysiadwyd gan y GCA, sydd wedi'i lunio i sicrhau fod staff cymorth dysgu yn gallu cyflawni eu rolau yn fwy effeithiol, ei bennu trwy bartneriaeth â gweithgor traws-ranbarthol y Llwybr Dysgu ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu, a chafwyd cymorth â'r gwaith gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhaglenni dysgu proffesiynol yn seiliedig ar brofiad o ddylunio a hwyluso cyfleoedd Dysgu Proffesiynol blaenorol, y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Cyfunol a gwersi a ddysgwyd yn sgil gwaith blaenorol i ddarparu'r Llwybr Dysgu ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu yn y rhanbarth, sy'n cynnwys safbwyntiau cydlynwyr presennol y Llwybr Dysgu yn y rhanbarth ac ymarferwyr presennol.

Yn achos y rhan fwyaf o raglenni, caiff y gwaith o hwyluso rhaglenni'r Llwybr Dysgu ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu ei drefnu trwy gyfrwng modelau cydweithio rhwng ysgolion y GCA, a defnyddir ysgolion sy'n arwain dysgu proffesiynol i arwain agweddau o ddysgu proffesiynol, yn unol â strategaeth dysgu proffesiynol gymeradwy'r rhanbarth.

Mae cyfanswm o 296 o gyfranogwyr wedi rhoi adborth ynghylch y rhaglen ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu:

- dywedodd 41% o'r cyfranogwyr eu bod yn credu y byddai'r hyfforddiant yn dylanwadu'n sylweddol iawn ar eu harferion beunyddiol yn eu hysgol;
- dywedodd 45% eu bod yn credu y byddai'r rhaglen yn dylanwadu'n sylweddol ar eu harferion beunyddiol fel cynorthwydd addysgu;
- roedd 88% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod cynnwys yr hyfforddiant yn berthnasol iddynt o safbwynt eu rôl yn eu hysgol.
- fe wnaeth 81% gytuno neu gytuno'n gryf fod ganddynt well dealltwriaeth o'r rôl o ganlyniad i'r hyfforddiant.

Mae'r sail resymegol sy'n seiliedig ar dystiolaeth dros fuddsoddi'n sylweddol i ddarparu dewis helaeth o raglenni i wella arweinyddiaeth ac ansawdd addysgu a dysgu yn enghraifft glir o '*wneud y pethau iawn*'. Fodd bynnag, mae angen ystyried dylanwad y rhaglenni hefyd.

Wrth ystyried effeithiolrwydd cyffredinol y rhaglenni sy'n cael eu cynnal, mae'n rhesymol mabwysiadu'r mesurau canlynol i fesur llwyddiant:

- Yn y tymor hir, byddai ysgolion sy'n cyfranogi yn y rhaglen yn disgwyl gweld gwelliant ym marnau Estyn ynghylch ansawdd addysgu ac arweinyddiaeth a lleihad yn nifer yr argymhellion ynghylch arweinyddiaeth ac addysgu (o fewn cyfnod o 18 mis i 2 flynedd).
- Yn y tymor hirach, dylai gwelliannau parhaus (a chynaliadwy) mewn addysgu a dysgu ddylanwadu ar ddeilliannau gwell i ddysgwyr (o fewn 2 neu 3 blynedd).
- Byddai lefelau cymorth (categorioid) yn gostwng ymhen amser.
- Yn ystod arolygon ac ymweliadau ag ysgolion mewn categorïau statudol, byddai Estyn yn dwyn sylw at welliannau mewn addysgu a dysgu.
- Llai o ysgolion mewn categori statudol.

Os derbynnir y meini prawf llwyddiant uchod, mae dadansoddiad sy'n dangos i ba raddau y maent yn cael eu cyflawni yn ddangosydd dilys o effeithiolrwydd y rhaglenni. Dengys y dystiolaeth hyd yn hyn:

- fod perfformiad ysgolion a deilliannau disgyblion yn gwella; fodd bynnag, mae problemau sylweddol yn para yn y sector uwchradd;

- yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, mae barnau Estyn ynghylch ansawdd addysgu ac arweinyddiaeth wedi gwella'n sylweddol ledled y rhanbarth. Gellir gweld isod i ba raddau mae'r sefyllfa wedi gwella:

2017

- 50% addysgu, 50% arweinyddiaeth yn dda neu'n rhagorol
- 2% Addysgu Rhagorol, 8% Arweinyddiaeth Ragorol

2018

- 74% addysgu, 66% arweinyddiaeth yn dda neu'n rhagorol
- 10% Addysgu Rhagorol, 10% Arweinyddiaeth Ragorol

2019


- 78% addysgu, 75% arweinyddiaeth yn dda neu'n rhagorol
- 22% Addysgu Rhagorol, 28% Arweinyddiaeth Ragorol

2020

- D.S.: dim ond 4 arolwg sydd wedi cael eu cynnal eleni oherwydd pandemig COVID-19.

Y nod nawr yw parhau i wella canlyniadau arolygon Estyn yn ystod y tair blynedd nesaf, trwy gynyddu nifer y barnau da a rhagorol ynghylch arweinyddiaeth ac addysgu, a lleihau nifer yr argymhellion sy'n gysylltiedig ag arweinyddiaeth ac addysgu. Yn ystod y cyfnod o 2016 i 2020, roedd 22% o'r holl argymhellion yn ymwneud ag arweinyddiaeth. Fodd bynnag, cafwyd gwahaniaeth sylweddol rhwng y sectorau cynradd ac uwchradd; roedd y ganran yn 18% yn achos ysgolion cynradd ac yn 32% yn achos ysgolion uwchradd. Mae hyn yn pwysleisio'r problemau sy'n gysylltiedig ag arweinyddiaeth mewn ysgolion uwchradd ledled y rhanbarth.

- Mae data canlyniadau'r broses categoreddio dros y tair blynedd isod (gweler y graffiau isod) yn cynnig tystiolaeth o wella addysgu ac arweinyddiaeth mewn ysgolion ledled y rhanbarth, yn cynnwys cynnydd sylweddol mewn arferion rhagorol. Fodd bynnag, unwaith yn rhagor, gwelir gwelliant cryfach yn achos ysgolion cynradd nag yn achos ysgolion uwchradd.



**Cynaliadwyedd – gwario at y tymor hir. Mae rhaglen helaeth o gymorth Adnoddau Dynol ynghyd â rhaglen ddatblygu gynhwysfawr yn ei lle i sicrhau y denir ac y cedwir gweithwyr proffesiynol o'r radd flaenaf ledled y rhanbarth.**

Mae denu a chadw gweithwyr proffesiynol yn yr ysgolion ac yn y GCA ei hun yn allweddol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd o ran ansawdd y gwasanaeth a ddarperir a'r gallu i wneud y defnydd gorau o'r ddarpariaeth honno i sicrhau gwelliant parhaus mewn deilliannau.

Byddai'r rhan fwyaf o bobl yn dadlau fod denu a chadw staff, er mwyn sicrhau cynaliadwyedd, yn dibynnu'n drwm ar y canlynol:

- recriwtio effeithiol;
- darparu cymorth i ddatblygu;
- darparu cyfleoedd i ddatblygu; a
- hwyluso cynnydd

Mae'r GCA wedi gwneud llawer iawn o waith yn ystod blynyddoedd diweddar i hwyluso'r broses hon, trwy gyfrwng y rhaglen gynhwysfawr o gymorth i ddatblygu y cyfeiriwyd ati eisoes a thrwy ddarparu cymorth helaeth ynghylch Adnoddau Dynol. Fel y nodwyd mewn adroddiadau blaenorol, mae datblygu Gwasanaeth Adnoddau Dynol Arbenigol yn sicrhau y gellir cyflawni arbedion maint ledled y rhanbarth, ac mae'n annog dull cyffredin, lle bo hynny'n bosibl, o weithredu polisïau ac arferion allweddol. Mae datblygu ystod o bolisïau a dogfennau canllawiau cyffredin yn golygu fod yr un prosesau yn cael eu hargymell i'r holl ysgolion ledled y rhanbarth, ac mae hynny'n lleihau'r gwahaniaethau o safbwynt sut cynhelir prosesau recriwtio arweinwyr, prosesau ynghylch gallu a phrosesau rheoli perfformiad ledled y rhanbarth a gwahaniaethau o ran y dull o weithredu cyflogau athrawon.

Mae'r rhaglenni dysgu proffesiynol rhanbarthol, sy'n cael eu cynnal gan y Gwasanaeth Adnoddau Dynol Arbenigol, yn galluogi arweinwyr ysgolion i gyfranogi mewn sesiynau sy'n cynorthwyo i ddatblygu sgiliau rheoli pobl, ac yn cyfleu neges gyffredin ynghylch y prosesau hyn ledled y rhanbarth.

Mae bodolaeth y Gwasanaeth Adnoddau Dynol Arbenigol wedi annog mwy o gydweithredu rhwng timau Adnoddau Dynol Awdurdodau Lleol i lunio polisïau a dulliau gweithredu allweddol. Darperir cyfleoedd rheolaidd i rannu arferion gorau trwy gyfrwng cyfarfodydd a gynhelir bob hanner tymor a gwelwyd cynnydd o ran cyfathrebu a dulliau cydweithredol o ymdrin â materion yn ystod y 12 mis diwethaf.

Mae rôl allweddol y Gwasanaeth Adnoddau Dynol Arbenigol yn y GCA wedi bod yn effeithiol o safbwynt cynnig eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau'r GCA a'r Awdurdodau Lleol mewn llawer o brosesau. Mae hyn wedi cynnwys y broses o recriwtio Penaethiaid, ac yn fwy diweddar, y broses o gynnull pwyllgorau statudol i gyflawni prosesau Adnoddau Dynol. Mae'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol Arbenigol yn cynnig dolen gyswllt i hwyluso trafodaeth rhwng timau'r GCA a thimau Adnoddau Dynol Awdurdodau Lleol, ac mae hynny wedi hwyluso'r broses o fynegi pryderon ac wedi golygu y gellir trafod dewisiadau i fynd i'r afael ag anawsterau yn haws.

Gellir crynhoi'r gwaith a wneir gan y Gwasanaeth Adnoddau Dynol Arbenigol i gynorthwyo â datblygiad parhaus proffesiwn addysg rhagorol fel a ganlyn:

- darparu cymorth penodol ar lefel uchel ar gyfer staff y GCA sy'n ymdrin â materion Adnoddau Dynol sy'n deillio o'r rôl "cynorthwyo a herio" ysgolion a wneir gan Ymgynghorwyr Her;

- datblygu canllawiau a dysgu proffesiynol ym maes rheoli pobl ar gyfer arweinwyr a chyrrff llywodraethu ysgolion, gan gydweithredu â Gwasanaethau Adnoddau Dynol Awdurdod Lleol, i gynorthwyo â'r gwaith o recriwtio a datblygu arweinwyr effeithiol mewn ysgolion ledled y rhanbarth;
- darparu'r dysgu proffesiynol a'r canllawiau hyn i arweinwyr ysgolion i'w galluogi i gynorthwyo a herio eu staff yn effeithiol, datblygu gallu gweithlu ysgolion, i gyfrannu at wella safonau; a
- gweithio'n gydweithredol â Gwasanaeth Adnoddau Dynol Consortiwm De Ddwyrain Cymru i alluogi dull cyson o ymdrin â materion rheoli pobl sy'n dylanwadu ar wella ysgolion.

Er bod rhaglenni datblygu proffesiynol a rhaglenni i gynorthwyo â materion Adnoddau Dynol yn cael eu hystyried ar wahân at ddibenion strwythur yr adroddiad hwn, mewn gwirionedd, mae'r rhaglenni a ddarperir yn ategu ei gilydd, fel y dengys yr enghreifftiau canlynol.

#### *Recriwtio Effeithiol:*

Waeth pa mor dda y caiff rhaglenni datblygu arweinyddiaeth eu dylunio a'u darparu, mae'n rhaid sicrhau y cânt eu hategu gan recriwtio effeithiol i sicrhau y gwreiddir y buddion posibl yn llawn. I hwyluso recriwtio effeithiol, fe wnaeth y GCA sefydlu proses ymgynghori i ddatblygu swydd-ddisgrifiadau enghreifftiol newydd sy'n ymgorffori gofynion y Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth a gyflwynwyd ym Medi 2018. Mae Dr Andrew James Davies o Brifysgol Aberystwyth wedi cyhoeddi papurau ymchwil ynghylch recriwtio a chadw penaethiaid, a gofynnwyd iddo hefyd am ei farn ynghylch cynnwys y swydd-ddisgrifiadau.

Yn dilyn datblygu swydd-ddisgrifiadau Penaethiaid a Dirprwy Benaethiaid, daeth yn amlwg yn sgil trafodaeth â rhanddeiliaid fod ysgolion yn dymuno ehangu'r gronfa o swydd-ddisgrifiadau safonol argymelledig, ac fe wnaeth y GCA ddatblygu'r rhain i gwmpasu rolau Penaethiaid Cynorthwyol ac Athrawon Dosbarth. Cafodd y rhain eu cymeradwyo gan Gyfarwyddwyr Addysg pob un o'r Awdurdodau Lleol, a bellach, gwneir defnydd helaeth ohonynt ledled y rhanbarth.

Yn ogystal â datblygu enghreifftiau o ddisgrifiadau swyddi, bydd y GCA yn cydweithio'n agos ag Awdurdodau Lleol i ddarparu cymorth sylweddol ar gyfer cyrrff llywodraethu ysgolion â'r broses recriwtio i benodi Penaethiaid a Dirprwy Benaethiaid. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys cyflwyno dulliau asesu newydd, a ddefnyddir yn gyffredin i recriwtio arweinwyr mewn diwydiannau eraill. Mae'r dulliau hyn yn caniatáu i gyrrff llywodraethu gynnal asesiad llawn o sgiliau, profiad, rhinweddau a photensial ymgeiswyr am swyddi Penaethiaid a Dirprwy Benaethiaid. Mae recriwtio'r unigolyn sy'n briodol i'r ysgol yn allweddol, felly mae'n hanfodol sicrhau fod gan gorff llywodraethu amrywiaeth o opsiynau sy'n ategu ei gilydd, sy'n profi holl ofynion a swydd ac addasrwydd unigolion ar gyfer yr ysgol hefyd.

#### *Darparu cymorth i ddatblygu:*

Fe wnaeth trafodaethau ag aelodau timau arweinyddiaeth ysgolion dros gyfnod graddol ddatgelu fod llawer yn credu nad oeddent wedi'u paratoi i gyflawni elfen rheoli pobl y swydd, oherwydd nid oedd yr hyfforddiant a gawsant i'w paratoi at rôl Pennaeth neu Ddirprwy Bennaeth yn cynnwys yr elfen hon yn flaenorol. Mae'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol Arbenigol wedi cydweithio â'r tîm Dysgu Proffesiynol i gyfrannu at y gwaith o ddarparu'r rhaglenni carreg filltir trwy ddylunio a darparu cynnwys sy'n gysylltiedig ag Adnoddau Dynol, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar reoli newid a chynnal sgysiau heriol. Y nod yw sicrhau fod gan arweinwyr ysgolion fwy o hyder wrth weithredu mesurau rheoli perfformiad effeithiol i fynd i'r afael yn gynnar ag anawsterau perfformiad er mwyn cynorthwyo i wella ysgolion. Mae trafodaethau hefyd wedi cael eu cynnal

ynghylch cyfrannu at sesiynau yn ymwneud â llesiant a chydnerthedd. Hyd yn hyn, mae'r hyn sydd wedi'i ddarparu wedi cynnwys:

- dylunio a darparu sesiwn gyffredinol ynghylch Rheoli Pobl ar gyfer y rhaglen Darpar Benaethiaid;
- dylunio a darparu sesiwn ynghylch Sicrhau fod Sgyrsiau Heriol yn Llwyddiannus, fel rhan o'r rhaglen carreg filltir ar gyfer Uwch Arweinwyr;
- dylunio sesiwn ynghylch Rheoli Pobl yn ystod Cyfnod o Newid i'w darparu fel rhan o'r rhaglen genedlaethol ar gyfer Penaethiaid Newydd a Dros Dro; a
- chynorthwyo Arweinydd Dysgu Proffesiynol y GCA sy'n gyfrifol am y rhaglen genedlaethol ar gyfer Penaethiaid Profiadol i nodi sefydliadau allanol addas i gynnal prosesau a sesiynau adborth 360 fel rhan o'r rhaglen.

### Casgliad:

Fel y nodir yn y cyflwyniad i'r adroddiad hwn, mae Gwerth am Arian yn fesur sy'n dangos i ba raddau y mae sefydliad (y GCA yn yr achos hwn) yn cyflawni ei ddeilliannau a'i amcanion arfaethedig gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddo. Ni ddylai cyfeiriadau ar wahân at ddeilliannau ac amcanion gael eu dehongli fel awgrym eu bod yn bethau hollol ar wahân mewn unrhyw ystyr. I'r gwrthwyneb, ni chyflawnir y deilliannau arfaethedig oni bydd amcanion y sefydliad yn cynrychioli'r gweithgarwch gofynnol a digonol sy'n llwyddo orau i hwyluso'r gwaith o gyflawni'r deilliannau hynny.

Ar gyfer y GCA, mae amcanion ynghylch denu, datblygu a chadw gweithlu rhagorol, yn y sefydliad ac mewn ysgolion ledled y rhanbarth, yn cynnig dull cydlynol o'i alluogi i gyflawni'r deilliannau arfaethedig o ran perfformiad ysgolion a chyflawniad disgyblion. Mae'r cyd-fynd hwn yn arwain at amcanion sy'n cryfhau ei gilydd ac yn hwyluso darpariaeth gyflenwol mewn perthynas â darparu'r rhaglenni cymorth.

Mae'r dull cyflenwol o ddarparu rhaglenni sy'n sail i amcanion sy'n cyd-fynd â deilliannau arfaethedig, ac sy'n cyd-fynd yn agos ag Amcanion Cenedlaethol i helpu i baratoi ysgolion i ymateb i heriau diwygio'r cwricwlwm ac arfarnu, yn cynnig tystiolaeth fod y GCA yn '*gwneud y pethau iawn*'. Mae ymatebion i arolygon gan ysgolion sy'n derbyn gwasanaethau ac unigolion sy'n cyfranogi ynddynt ac yn dangos lefel uchel o fodlonrwydd â gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn cynnig tystiolaeth fod y GCA yn '*gwneud y pethau iawn yn dda*'. Mae gwelliannau mewn deilliannau yn cynnig tystiolaeth o '*effaith*' a'r defnydd da o ymchwil sy'n cael ei gomisiynu'n allanol i arfarnu dulliau presennol a gwella darpariaeth y dyfodol yn cynnig tystiolaeth o '*welliant cynaliadwy*'.

Yn gryno, mae'r GCA yn darparu gwasanaeth:

- sy'n gwneud y pethau iawn;
- sy'n wneud y pethau hynny'n dda;
- sy'n sicrhau effaith; ac
- sy'n gynaliadwy.

Mae pob un o'r uchod yn ategu'r casgliad cyffredinol fod y GCA yn dal i ddarparu Gwerth am Arian da mewn perthynas â'r gwasanaethau mae'n eu darparu i ysgolion ledled y rhanbarth.